# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Gwener, 30 Tachwedd 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Aelodau Annibynnol – Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes (Is-Gadeirydd) a Peter Lamb.

Cynghorwyr - Gordon Hughes, Paul Penlington a Andrew Thomas

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW), Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol (LJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Anne Mellor

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 21 Medi 2018:

Tudalen 7 (Presennol) – Dylai ddarllen fel 'Cynghorydd' yn y ffurf unigol.
Tudalen 7 (Eitem 4 – trydydd paragraff) – dylai fod yn 'where' nid 'were' yn y Saesneg
Tudalen 9 (Eitem 8 - pwynt bwled cyntaf) – Dylai trefn y geiriau ddarllen yn wahanol
Tudalen 10 (Eitem 8 – trydydd paragraff) – paragraff ddim yn darllen yn dda. Prif lythyren ar goll ar ddechrau'r frawddeg.
Tudalen 10 (eitem 8 – pedwerydd paragraff) – roedd y gair 'Committee's' wedi'i gamsillafu yn y Saesneg
Tudalen 11 (eitem 9 – trydydd pwynt bwled) – bwlch yn anghywir rhwng geiriau.

**Materion yn Codi:**

Tudalen 11 – Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol – Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei fod wedi cysylltu â Chlerc Cyngor Cymuned Llanbedr ynglŷn â chais pellach ar gyfer gollyngiad i'r Pwyllgor Safonau. Daethpwyd i'r casgliad ar y pryd nad oedd y Cyngor

Cymuned angen unrhyw ollyngiadau pellach. Dywedodd y Swyddog Monitro mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned oedd gofyn am ollyngiadau pellach. Cytunwyd bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Glerc y Cyngor Cymuned i gadarnhau'r gofynion a chyfrifoldebau o ran ceisiadau gollyngiad.

Gofynnodd yr Aelodau i lythyr ychwanegol gael ei ddosbarthu i holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned gyda'r weithdrefn gollyngiadau yn cynnwys copi o'r ffurflen gais

***PENDERFYNWYD***

- *yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2018 fel cofnod cywir.*
- *bod llythyr yn cael ei anfon i Lanbedr i amlygu gofynion y weithdrefn ar gyfer gollyngiadau **[Y Swyddog Monitro i weithredu]** a dosbarthu llythyr i holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned i roi arweiniad ar gyfer gollyngiadau, gan gynnwys copi o ffurflen gais.*
  ***[Y Swyddog Monitro i weithredu].***

## 5 ADOLYGIAD O BRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD CYNGHORAU TREF, DINAS A CHYMUNED

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol ddiweddariad ar lafar ar bresenoldeb mewn Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned gan gynrychiolwyr y Pwyllgor Safonau.

Rhoddodd yr LSM gefndir byr i'r rheswm dros bresenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn cyfarfodydd cyngor cymuned. Cynhaliwyd ymweliadau â chynghorau cymuned ers 2013. Rhoddodd yr LSM restr o gynghorau cymuned na ymwelwyd â nhw ers 2013. Daeth yr Aelodau i'r casgliad y dylid rhoi blaenoriaeth i fynychu'r rhai na ymwelwyd â nhw. Eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd yna gyfyngiad cyfreithiol i atal cynghorwyr sir neu gymuned i fynychu cyfarfod cyngor cymuned gwahanol. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro os oedd y cynghorwyr sir yn gwybod ymlaen llaw pa gyfarfodydd cyngor cymuned yr oeddent yn bwriadu ymweld â nhw, gellir cyfathrebu cyn y cyfarfod i sicrhau y cytunwyd ar yr ymweliad.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y gellir dosbarthu sgript i aelodau'r Pwyllgor Safonau ddarparu i gyfarfodydd cymunedol i aelodau cyn iddynt fynychu cyfarfod **[Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol i weithredu].** Cytunodd yr aelodau o'r rhestr o gynghorau na ymwelwyd â nhw i fynychu cyfarfod erbyn Mehefin 2019. Cadarnhaodd y Cadeirydd eitem ar gyfer y rhaglen yng nghyfarfod Mehefin 2019 i adolygu presenoldeb mewn cyfarfodydd.

***PENDERFYNWYD***

- *y Pwyllgor Safonau i nodi'r diweddariad ar lafar a roddwyd gan y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol;*
- *cytunodd aelodau i fynychu cyfarfodydd y cynghorau cymuned na ymwelwyd â nhw erbyn Mehefin 2019 a*
- *y wybodaeth ddiweddaraf am bresenoldeb mewn Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i gael ei ychwanegu at y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer Mehefin 2019.*

## 6 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2017/18

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) i roi manylion Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2017/18. Rhoddodd yr Ombwdsmon wybodaeth gefndir o rôl yr Ombwdsmon i'r aelodau.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod y nifer o gwynion cod ymddygiad yn ystod cyfnod yr adroddiad wedi codi 14%. Roedd yr adroddiad wedi dangos gostyngiad mewn cwynion o ran Awdurdodau Unedol a chynnydd mewn cwynion o ran Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod hyfforddiant cod ymddygiad wedi'i ddarparu i Gynghorwyr Sir a Chymuned.

Rhoddwyd cadarnhad nad oedd yr un o'r ymchwiliadau a gwblhawyd yn llawn a fanylwyd yn yr adroddiad wedi eu cyfeirio i'r Pwyllgorau Safonau. Roedd 3 ymchwiliad wedi eu cyfeirio i Banel Dyfarnu Cymru.

Dywedodd y Swyddog Monitro, yn ystod y cyfnod bod 2 gwyn wedi eu derbyn yn erbyn Cynghorwyr Sir a 2 gwyn yn erbyn Cynghorwyr Cymuned. Pwysleiswyd nad oedd yr un o'r pedair cwyn wedi eu hymchwilio.

Yn ystod y drafodaeth, trafodwyd y pwyntiau canlynol mewn mwy o fanylder -

- Y lefel uchel o gwynion yn erbyn datgan a chofrestru diddordebau, yn amlygu pwysigrwydd datgan cysylltiad os oes angen.
- Gall yr Ombwdsmon edrych ar ystod o ddigwyddiadau a datblygu cwrs ymddygiad i'w gyflwyno fel tystiolaeth os bydd angen.
- Roedd cynnydd mewn cwynion a dderbyniwyd yn dangos yn gadarnhaol bod y cyhoedd wedi mynegi pryder a diddordeb.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro yr ystyrir hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned yn 2019.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r wybodaeth o fewn Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2017/18.*

## 7 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Roedd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes (JH) wedi mynychu Cyngor Cymuned Trefnant ddydd Mercher 21 Tachwedd 2018. Roedd JH yn teimlo bod y cyfarfod yn un pleserus iawn. Roedd nifer dda wedi mynychu'r cyfarfod, roedd y Cadeirydd yn arwain y cyfarfod yn dda gyda chefnogaeth gan y Clerc. Roedd yr holl aelodau'n cyfrannu at y cyfarfod pan oedd hynny'n briodol. Roedd holl feysydd trafodaeth wedi derbyn sylw. Roedd aelodau wedi datgan cysylltiad a gadael yr adeilad ar bwyntiau priodol pan oedd eitemau'n cael eu trafod. Daethpwyd i'r casgliad bod y cyfarfod wedi'i gynnal yn dda.

O'r drafodaeth, gofynnodd JH a oedd unrhyw hyfforddiant wedi'i ddarparu i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned ar ddiogelu data a'r ddeddfwriaeth Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol

bod sesiwn hyfforddiant ar y gweithdrefnau Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd wedi'i ddarparu i Glercod Cyngor Dinas, Tref a Chymuned. Roedd nodyn briffio wedi'i ddosbarthu i holl reolwyr data er gwybodaeth. Roedd y nodyn briffio wedi cynnwys manylion cyswllt os oedd angen cefnogaeth ychwanegol.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r presenoldeb a diweddaru'r adroddiad presenoldeb i adlewyrchu'r ymweliad gan Julia Hughes.*

## 8 GWEITHDREFNAU GWRANDAWIADAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro yr adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) yn ymwneud â'r newidiadau a awgrymwyd i'r weithdrefn a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer cynnal gwrandawiadau gan y Pwyllgor Safonau yn ymwneud â honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad.

Arweiniodd y Swyddog Monitro yr aelodau drwy'r adroddiad a chyfeiriodd at y newidiadau i'r weithdrefn a amlygwyd.

Dywedodd yr Aelodau fod yr adroddiad yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol iawn. Roedd y weithdrefn a'r newidiadau yn amlwg ac yn deg. Yn ystod y drafodaeth, gofynnodd y Cadeirydd a effeithir ar y ddeddfwriaeth Hawliau Dynol yn dilyn Brexit. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod y ddeddfwriaeth yn wahanol i Ddeddfwriaeth Yr Undeb Ewropeaidd a byddai'n parhau yn dilyn Brexit.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Safonau, y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ei ystyried.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am yr adroddiad tryloyw ac eglurhad mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r newidiadau i'r weithdrefn fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn ac yn argymell y newidiadau i'r Cyngor ar gyfer eu hymgorffori yn y Cyfansoddiad.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau i'w ystyried a chytunodd yr aelodau ar yr ychwanegiad canlynol:-

- Adolygu presenoldeb mewn Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned – 7 Mehefin 2019.
- Adolygu'r Pwyllgor Safonau (adroddiad 2 flynedd) – 15 Mawrth 2019.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n dosbarthu unrhyw wybodaeth a dyddiadau hyfforddiant i aelodau fynychu.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y newidiadau uchod, y cytunir ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau.*

## 10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Hysbysodd y Swyddog Monitro’r aelodau bod dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi’i drefnu ar gyfer 15 Mawrth 2019. Cadarnhaodd y byddai’n rhaid newid y dyddiad arfaethedig a chadarnheir ar ddyddiad newydd gyda’r aelodau ar ôl cytuno arno.

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 11 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro’r adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i roi trosolwg i'r Aelodau o’r cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers 1 Ebrill 2014.

Darparodd y Swyddog Monitro rywfaint o gyd-destun ac eglurhad ynglŷn â chefndir y cwynion ac y byddai diweddariadau pellach yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau i linell i nodi cwynion a drafodwyd yn flaenorol a chwynion newydd gael ei hychwanegu i’r tabl ar gyfer eglurhad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn amodol ar yr uchod, yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:10 p.m.**